OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 603

## Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Diwygio) 2005

**Diwygio rheoliad 8 o'r Prif Reoliadau**

**5.**—(1) Dileir y geiriau "baragraff (2) ac i reoliad 9" yn rheoliad 8(1) o'r Prif Reoliadau a rhoddir y geiriau "baragraffau (2) a (3)" yn eu lle.

(2) Dirymir rheoliad 8(2) o'r Prif Reoliadau a rhoddir y y canlynol yn ei le:

> "(2) Caiff person wasanaethu fel aelod o Gyngor am gyfnod o ddeng mlynedd ar y mwyaf."

(3) Yn dilyn y rheoliad 8(2) newydd mewnosodir

> "(3) Wrth gyfrifo'r cyfnod o ddeng mlynedd y cyfeirir ato ym mharagraff (2) uchod, caiff pob cyfnod o wasanaeth fel aelod mewn unrhyw Gyngor ei agregu, gan gynnwys gwasanaeth mewn Cyngor y cafodd ei ardal ei newid ac mewn Cyngor sydd wedi'i ddiddymu ond heb fod yn gyfyngedig i'r cyfnod gwasanaeth hwnnw."